Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Rhiwabon

**Rhiwabon**
**Wrecsam**
**LL14 6BT**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant**

**yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Rhiwabon

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Rhiwabon |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Math o ysgol | Uwchradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 503 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 501 |
| Nifer yn y chweched dosbarth | 0 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector uwchradd yw 20.2%) | 19.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector uwchradd yw 17.8%) | 12.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 1.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 1.8% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 22/02/2016 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 26/01/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 27/02/2023 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru: fyysgolleol.llyw.cymru

a. Mae’r term ‘anghenion dysgu ychwanegol’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio’r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Rhiwabon yn ysgol ofalgar a chynhwysol sy’n ymdrechu i gefnogi ei disgyblion i ‘lwyddo ag enaid’ a datblygu’n academaidd ac yn bersonol. Mae staff yn uchelgeisiol i bob un o’r disgyblion gyflawni eu llawn botensial a gadael yr ysgol yn barod ar gyfer y camau nesaf yn eu bywydau. Mae’r ysgol yn defnyddio ystod o strategaethau gwerthfawr i hyrwyddo presenoldeb da ac mae wedi ailgyflwyno gwers bob pythefnos i sicrhau bod pob un o’r disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddysgu am sut i’w cadw eu hunain yn ddiogel ac iach. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn cymryd rhan yn dda mewn dysgu. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas safle’r ysgol. Mae disgyblion iau yn elwa ar drefniadau pontio effeithiol i’w helpu i ymgynefino’n dda â bywyd ysgol. Yn ychwanegol, mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth buddiol i’w galluogi i ddatblygu eu medrau academaidd a’u medrau bywyd.

Ers tynnu’r ysgol o fesurau arbennig ym mis Tachwedd 2017, mae arweinwyr yn yr ysgol wedi parhau i weithio’n ddiwyd i ddatblygu ei darpariaeth ar gyfer lles ac addysgu. Ochr yn ochr â hyn, ymatebon nhw’n sensitif i gefnogi cymuned yr ysgol trwy heriau’r pandemig. Mae’r pennaeth wedi rheoli newid yn ofalus tra’n cynyddu disgwyliadau ar gyfer staff a disgyblion. Ceir ymdeimlad cryf o gydweithio ymhlith staff a disgyblion. Mae arweinwyr ar bob lefel yn deall pwysigrwydd cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sicrhau ansawdd gwerthfawr. Maent yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol yn dda i hunanwerthuso’u gwaith a chynllunio ar gyfer gwelliant. Maent yn nodi cryfderau a meysydd i’w gwella yn gywir. Fodd bynnag, nid yw ychydig o arweinwyr canol bob amser yn gwerthuso ansawdd yr addysgu ar sail ei effaith ar ddysgu disgyblion. Mae staff yn gwerthfawrogi ac yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol sy’n dechrau cael effaith gadarnhaol ar addysgu.

Mae’r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys, gan gynnwys ystod eang o bynciau academaidd a galwedigaethol gwerthfawr, i ddiwallu anghenion bron pob un o’r disgyblion. Mewn gwersi, mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth. Mae’r disgyblion hyn yn gwneud cyfraniadau addas at drafodaethau dosbarth ac yn defnyddio terminoleg sy’n benodol i bwnc yn briodol. Mae llawer o ddisgyblion yn dod o hyd i ffeithiau a gwybodaeth o destunau yn gywir a gallant ysgrifennu’n addas at ystod o ddibenion a chynulleidfaoedd. Mewn ychydig o bynciau, mae disgyblion yn casglu ystyr yn effeithiol o destunau ac yn ysgrifennu adroddiadau soffistigedig i esbonio diben o ystod o ffynonellau. Nid yw lleiafrif bach o ddisgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent. Mae hyn yn gysylltiedig â diffygion mewn addysgu, gan gynnwys diffyg cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd a TGCh yn raddol ar draws y cwricwlwm. Yn ychwanegol, nid yw cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio a datblygu eu medrau Cymraeg mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol wedi’u datblygu’n ddigonol.

## Argymhellion

A1 Gwella ansawdd yr addysgu i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn gwybodaeth a dealltwriaeth a medrau pwnc.

A2 Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg, rhifedd a TGCh disgyblion.

A3 Datblygu prosesau hunanwerthuso ymhellach fel eu bod yn canolbwyntio'n fwy manwl gywir ar effaith y ddarpariaeth ar ddysgu'r disgyblion.

A4 Mynd i'r afael â'r materion iechyd a diogelwch a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

### Dysgu

Mewn gwersi a thros gyfnod, mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, ac yn galw eu dysgu blaenorol i gof yn llwyddiannus. O roi'r cyfle iddynt, mae mwyafrif o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau llythrennedd a rhifedd yn briodol mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Mae ychydig o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyflym iawn yn eu gwybodaeth bwnc, er enghraifft wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o rôl y Ku Klux Klan yn America yn y 1920au mewn hanes. Nid yw lleiafrif bach o ddisgyblion yn gwneud cymaint o gynnydd ag y gallent. Mae hyn yn gysylltiedig â diffygion mewn addysgu, gan gynnwys diffyg cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau'n raddol ar draws y cwricwlwm.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan gynnwys y rhai sy'n mynychu canolfan adnoddau arbenigol 'Succeed', yn gwneud cynnydd addas yn erbyn eu targedau unigol. Yn gyffredinol, mae disgyblion sy'n mynychu'r ddarpariaeth hon yn ymgysylltu'n dda mewn dosbarthiadau arbenigol ac wrth fynychu gwersi prif ffrwd, lle bo'n briodol. Mae'r disgyblion hyn yn datblygu eu medrau bywyd yn dda trwy weithgareddau ychwanegol gwerthfawr fel ymweld â siopau lleol.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau eu hathrawon a chyfraniadau eu cyfoedion. Yn ystod trafodaethau ystafell ddosbarth, mae mwyafrif o ddisgyblion yn cynnig atebion priodol ac yn defnyddio terminoleg sy'n benodol i bwnc yn addas. Mae ychydig o ddisgyblion yn mynegi eu hunain yn effeithiol gan ddefnyddio ystod eang o eirfa soffistigedig i ddatblygu eu syniadau'n gydlynus. Er enghraifft, mewn gwersi iechyd a gofal cymdeithasol, maent yn esbonio'u meddyliau am gynrychioli grwpiau lleiafrifol wrth drafod modelau rôl fel Michelle Obama. Mae lleiafrif o ddisgyblion yn cynnig atebion ac esboniadau byr yn unig. Mae'r disgyblion hyn yn ei chael yn anodd mynegi eu meddyliau'n llawn, ac mae diffyg hyder ganddynt wrth gynnig atebion i gwestiynau. O roi'r cyfle iddynt weithio mewn parau neu grwpiau bach, mae mwyafrif o ddisgyblion yn ymgysylltu'n briodol â thasgau ac yn mynegi eu syniadau'n addas.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau darllen cadarn a gallant ddod o hyd i ffeithiau a gwybodaeth o destunau. Gallant gyfosod gwybodaeth sylfaenol o ystod o destunau yn fedrus. O roi'r cyfle iddynt, mae llawer o ddisgyblion yn darllen ar goedd gyda mynegiant a goslef addas. Mewn ychydig o bynciau, mae disgyblion yn casglu ystyr yn effeithiol o ystod o destunau. Maent yn creu cysylltiadau ystyriol â'u gwybodaeth flaenorol, er enghraifft wrth ddefnyddio'u dealltwriaeth o darddiad a diben, mewn trafodaethau ynghylch erlid yr Iddewon a'r 'Kristallnacht' mewn hanes.

Mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n briodol ar gyfer ystod amrywiol o ddibenion a chynulleidfaoedd. O roi'r cyfle iddynt ysgrifennu'n estynedig, mae mwyafrif o ddisgyblion yn strwythuro'u gwaith ac yn defnyddio paragraffau'n addas. Mae gan y disgyblion hyn ddealltwriaeth glir o ramadeg ac atalnodi. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn cynhyrchu darnau strwythuredig ac effeithiol o ysgrifennu estynedig sy'n ennyn diddordeb y darllenydd. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu dadl berswadiol i ystyried nifer o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol ar erthyliad mewn astudiaethau crefyddol neu maent yn disgrifio taith brechdan ham a chaws trwy'r system dreulio yn gywir mewn gwyddoniaeth. Fodd bynnag, nid yw ychydig o

ddisgyblion yn strwythuro'u gwaith yn ddigon da ac maent yn gwneud camgymeriadau diofal, mynych mewn sillafu, atalnodi a gramadeg. Yn ychwanegol, mae ychydig o ddisgyblion weithiau'n cyflwyno'u gwaith yn anniben neu'n gadael gwaith heb ei orffen.

Mewn mathemateg, mae mwyafrif y disgyblion yn dangos medrau rhif sylfaenol cadarn. Er enghraifft, gallant wneud amnewidiadau mewn fformiwlâu a datrys problemau syml. Mae mwyafrif y disgyblion yn plotio graffiau'n gywir ac yn cyfrifo arwynebeddau siapiau syml. Gall ychydig o ddisgyblion mwy abl ddatrys problemau cymhleth yn cynnwys ffracsiynau a rhifau cymysg neu broblemau sy'n gofyn am atebion â sawl cam. Mae'r disgyblion hyn yn cymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth i gyfrifo onglau mewnol mewn cylchoedd. Mewn cyd-destunau perthnasol ar draws y cwricwlwm, mae disgyblion yn cymhwyso'u medrau rhifedd a'u dealltwriaeth yn briodol. Er enghraifft, maent yn aildrefnu fformiwlâu syml mewn gwyddoniaeth neu'n defnyddio'u gwybodaeth am siâp a mesur yn gywir yn eu gwersi dylunio a thechnoleg. Yn gyffredinol, nid yw disgyblion yn cymhwyso'r medrau rhifedd y maent yn eu datblygu mewn gwersi mathemateg yn ddigon da. Mae hyn yn rhannol oherwydd diffyg cynllunio ar gyfer datblygu rhifedd yn raddol mewn pynciau perthnasol ar draws y cwricwlwm.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn defnyddio'u medrau digidol yn briodol i gwblhau ystod gyfyng o dasgau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn creu cyflwyniadau ym mhynciau'r dyniaethau neu'n defnyddio meddalwedd codio syml i ddatblygu dilyniant o orchmynion mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

At ei gilydd, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda, er enghraifft wrth wella'u harferion trampolinio mewn gwersi addysg gorfforol. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn defnyddio'u medrau echddygol manwl yn briodol, er enghraifft wrth ddefnyddio offer a chyfarpar yn y gweithdy dylunio a thechnoleg.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau creadigol yn addas. Er enghraifft, mewn cerddoriaeth, maent yn cyfansoddi ac yn perfformio leitmotif gerddorol fyr i gynrychioli arwr neu ddihiryn ffilm o'u dewis nhw ar allweddellau digidol. Mae ychydig o ddisgyblion yn datblygu medrau creadigol cryf, er enghraifft pan fyddant yn creu mygydau 3D clai i gyfleu afluniad mewn gwersi celf.

O roi'r cyfle iddynt, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn gymwys. Mae ychydig o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl yn effeithiol. Er enghraifft, mewn cymdeithaseg, maent yn trafod ac yn ystyried yn aeddfed y nodweddion sy'n cyfrannu at anghydraddoldeb mewn cymdeithas. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn ei chael yn anodd datblygu eu meddwl yn annibynnol.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd cymedrol yn unig yn eu medrau Cymraeg. Yn eu gwersi Cymraeg, mae lleiafrif o ddisgyblion yn datblygu medrau siarad a gwrando cadarn. Mae defnydd disgyblion o'r Gymraeg y tu allan i'r gwersi hyn yn gyfyngedig.

## Lles ac agweddau at ddysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn mwynhau mynychu Ysgol Rhiwabon ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Maent yn dweud eu bod yn cael eu trin yn deg ac yn cael eu hannog i ddangos parch tuag at bobl eraill. Mae disgyblion yn teimlo bod gwersi

addysg bersonol a chymdeithasol rheolaidd yn darparu cyfleoedd buddiol i ddysgu am faterion pwysig fel rhywiaeth ac iechyd meddwl. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dweud bod staff yn delio’n brydlon ac yn sensitif ag unrhyw achosion o fwlio. Mae disgyblion yn gwybod gyda phwy i siarad os byddant yn poeni neu angen cymorth, ac yn elwa ar gymorth arbenigol gwerthfawr o fewn hyb lles yr ysgol pan fydd angen. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn foesgar a chwrtais ag oedolion a phobl sy’n ymweld â’r ysgol ac yn ymddwyn yn dda o gwmpas safle’r ysgol, ar y cyfan.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd gwersi’n brydlon ac mae llawer ohonynt yn bwrw ymlaen â’u gwaith yn gyflym. Maent yn barchus at eu hathrawon a’u cyfoedion ac yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth. Mae llawer ohonynt yn cymryd rhan yn dda mewn gwersi ac yn dangos diddordeb yn eu gwaith. Mae ychydig o ddisgyblion yn hynod frwdfrydig am eu dysgu ac yn mwynhau cyfleoedd i ddatblygu eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth. Fodd bynnag, mae ychydig ohonynt yn araf i ymdawelu i wneud eu gwaith ac nid ydynt yn talu digon o sylw neu’n dal ati i ganolbwyntio mewn gwersi.

Mae disgyblion ym Mlwyddyn 7 yn ymdawelu’n dda ac yn datblygu eu hyder yn gyflym pan fyddant yn trosglwyddo i’r ysgol trwy gymryd rhan ym ‘mhrosiect SWAN’. Maent yn gwerthfawrogi’r cyfleoedd a gynigir trwy’r rhaglen drawsgwricwlaidd hon i ddatblygu eu synnwyr o hunaniaeth a pherthyn. Er enghraifft, maent yn mwynhau’r gyfatebiaeth o adeiladu sylfaen gadarn ar gyfer dysgu trwy brosiect brics coch Rhiwabon.

Mae ychydig o ddisgyblion yn ymgymryd â chyfleoedd arwain trwy’r cyngor ysgol ac fel aelodau cyswllt o’r corff llywodraethol. Mae ychydig o ddisgyblion yn datblygu eu medrau arwain fel arweinwyr chwaraeon, er enghraifft pan fyddant yn trefnu ac yn cynnal twrnameintiau chwaraeon ar gyfer ysgolion cynradd partner. Mae’r cyngor ysgol wedi cyfrannu at welliannau buddiol, fel cynyddu nifer y meinciau picnic mewn ardaloedd awyr agored. Fodd bynnag, nid yw disgyblion bob amser yn glir am waith ac effaith y cyngor ysgol. Nid yw tua hanner y disgyblion yn teimlo bod staff yn gwrando’n ddigon da ar eu barn.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol gwerthfawr, gan gynnwys clybiau chwaraeon a cherddoriaeth. Mae gweithgareddau fel pêl-rwyd a phêl-fasged yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau corfforol ac yn deall buddion ymarfer corff. Yn ychwanegol, mae disgyblion yn cymryd rhan yng nghôr yr ysgol ac yn cymryd rhan mewn cyngherddau a digwyddiadau cymunedol fel cyngerdd carolau Nadolig blynyddol yr ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy’n adeiladu’n briodol ar ddysgu blaenorol disgyblion ac yn diwallu anghenion bron pob un o’r disgyblion. Mae ychydig o ddisgyblion ag ADY sy’n mynychu’r ganolfan adnoddau arbenigol yn dilyn cwricwlwm wedi’i addasu sy’n diwallu eu hanghenion yn dda. Mae’r ysgol wedi datblygu cysylltiadau gwerthfawr â’r coleg addysg bellach lleol i ymestyn arlwy’r cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 4. O ganlyniad, mae ystod gynhwysfawr o opsiynau pynciau academaidd a galwedigaethol ar gael i ddisgyblion, gan gynnwys economeg, peirianneg, gwallt a harddwch, lletygarwch a gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn gryfder nodedig.

Mae disgyblion hŷn yn elwa'n sylweddol ar y cyngor a'r cymorth ar yrfaoedd a ddarperir gan staff cymorth i'w helpu i wneud penderfyniadau am eu dyfodol. Mae hyn yn cynnwys cyfweliadau unigol, ysgrifennu curriculum vitae a pharatoi cyfweliadau gyda phobl fusnes leol. Caiff y gweithgareddau hyn effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth disgyblion o opsiynau gyrfaoedd ac maent yn helpu codi eu dyheadau.

Megis dechrau sefydlu eu gweledigaeth a chynllunio'u cwricwlwm yn unol â'r gofynion i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi 2023 y mae arweinwyr. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori â staff a disgyblion i ddatblygu gweledigaeth yr ysgol. Mae'r ysgol wedi blaenoriaethu cyfleoedd i adrannau gydweithio er mwyn datblygu cynlluniau dysgu newydd ac mae wedi darparu hyfforddiant defnyddiol i athrawon ddatblygu eu dealltwriaeth o egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru.

Ceir ychydig o gyfleoedd cyfoethogi i ddisgyblion ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth, er enghraifft ymweliadau â llyfrgelloedd Rhiwabon a Wrecsam, ac â'r ardal leol fel rhan o brosiect 'Brics Coch Rhiwabon'. Ceir cysylltiadau agos ag ysgolion cynradd partner, ac yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi dechrau cydweithio i sicrhau bod y dysgu ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7 yn adeiladu'n briodol ar yr hyn y maent wedi'i brofi yn yr ysgol gynradd.

Mae cydlynwyr llythrennedd a rhifedd yn dechrau gweithio gydag arweinwyr pwnc i gynllunio cyfleoedd addas i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso'r medrau hyn ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw cynllunio strategol ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol ar draws y cwricwlwm wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd priodol o'r canlyniadau o asesiadau safonedig i nodi disgyblion â medrau sylfaenol gwan. Maent yn darparu cymorth addas ar gyfer mwyafrif y disgyblion hyn.

Mae ychydig o bynciau'n darparu profiadau a chyfleoedd dysgu gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Er enghraifft, maent yn dysgu am yr arlunwyr o Gymru, Cefyn Burgess a Kyffin Williams, mewn gwersi celf, ac mewn hanes, maent yn astudio stori Percy Edwards, sef bachgen lleol a frwydrodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf, ac a fu farw yno. Mewn ychydig iawn o bynciau eraill, mae arweinwyr yn dechrau ystyried eu cyfraniad at ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'u diwylliant a'u hunaniaeth Gymreig o fewn cymdeithas amrywiol. Fodd bynnag, nid yw'r agwedd hon ar waith yr ysgol wedi'i datblygu'n ddigonol yn yr un modd â'r cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau Cymraeg mewn gwersi heblaw Cymraeg neu mewn gweithgareddau allgyrsiol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi ailstrwythuro'i darpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) i gefnogi datblygiad emosiynol ac iechyd meddwl disgyblion. Mae pob grŵp blwyddyn yn cael gwersi dynodedig, wedi'u hamserlennu. Mae'r rhaglen yn cwmpasu themâu pwysig sy'n effeithio'n gadarnhaol ar iechyd a lles fel ymarfer corff, bwyta ac yfed yn iach, ac iechyd rhywiol, yn ogystal ag effaith dewisiadau ac ymddygiadau niweidiol am ffordd o fyw fel camddefnyddio sylweddau. Estynnir y ddarpariaeth hon gan ymweliadau gan ddarparwyr allanol a siaradwyr arbenigol.

Mae'r ysgol yn darparu ychydig o gyfleoedd buddiol i ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl yr ysgol sy'n cefnogi eu dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys clybiau chwaraeon, clwb garddio a chôr yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meithrin perthnasoedd gweithio cadarnhaol gyda disgyblion ac mae ganddynt wybodaeth gadarn am eu galluoedd a'u hanghenion. Maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn briodol ac yn hyrwyddo agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bwnc gref ac maent yn fodelau iaith da. Fodd bynnag, mae defnydd athrawon o Gymraeg bob dydd yn rhy amrywiol ar draws yr ysgol. Mae cynorthwywyr addysgu yn gweithio'n dda gyda disgyblion unigol sydd angen cymorth ychwanegol, a hefyd yn darparu cymorth dosbarth cyfan gwerthfawr mewn achosion perthnasol.

Mae llawer o athrawon yn rhoi esboniadau a chyfarwyddiadau clir. Maent yn rhannu amcanion dysgu perthnasol ar ddechrau gwersi ac yn cynllunio gweithgareddau priodol i gefnogi dysgu'r disgyblion. Yn gyffredinol, mae tasgau'n darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu gwybodaeth am, a dealltwriaeth o, bwnc. Ceir cyfleoedd addas ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd sylfaenol disgyblion ar draws y rhan fwyaf o bynciau perthnasol. Mae llawer o athrawon yn defnyddio adnoddau buddiol, a chelfydd weithiau, i gefnogi addysgu a dysgu. Maent yn mynd o gwmpas yr ystafell ddosbarth, yn cynorthwyo disgyblion wrth iddynt weithio, ac yn ymateb i unrhyw anawsterau a allai fod ganddynt. Mae'r athrawon hyn yn holi disgyblion yn rheolaidd i wirio'u dealltwriaeth. Fodd bynnag, maent yn aml yn cyfeirio eu cwestiynau i'r dosbarth cyfan ac yn gofyn cwestiynau sy'n gofyn am atebion byr iawn.

Mewn ychydig o wersi, lle mae'r addysgu ar ei orau, mae athrawon yn darparu cyfarwyddyd difyr, bywiog a chefnogol. Maent yn cynnig ystod gyfoethog ac amrywiol o brofiadau dysgu ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni. Mae athrawon yn y gwersi hyn yn gosod tasgau heriol a diddorol ar gyfer disgyblion. Maent yn cynllunio tasgau unigol a grŵp sy'n annog annibyniaeth a gwydnwch gan alluogi disgyblion i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn ymgorffori 'arosfannau cynnydd' effeithiol i brocio a datblygu dealltwriaeth disgyblion. Maent yn holi disgyblion yn fedrus ac yn ymateb yn gyflym i gamddehongliadau disgyblion i addasu addysgu yn fedrus i sicrhau cynnydd cryf.

Mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da ar gyfer datblygu medrau disgyblion yn raddol. Yn y gwersi hyn, mae athrawon weithiau'n gosod tasgau sy'n ailadroddus neu nid ydynt yn cynnig her. Maent yn gor-gyfarwyddo'r dysgu, a phrin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion drafod a gweithio mewn parau neu grwpiau bach. Yn rhy aml, ni chaiff disgyblion ddigon o gyfleoedd i weithio'n annibynnol ar yr athro. Nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau, yn enwedig eu medrau rhifedd, llafaredd, ysgrifennu estynedig a darllen uwch.

Mae ansawdd adborth athrawon ar waith disgyblion yn amrywiol o fewn pynciau, ac ar eu traws. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae athrawon yn tynnu sylw disgyblion yn fuddiol at gamgymeriadau sillafu, atalnodi a gramadegol ac unrhyw fylchau yng ngwaith disgyblion. Ym mwyafrif yr achosion, mae sylwadau athrawon ar waith disgyblion yn berthnasol a buddiol, yn cynnwys targedau defnyddiol i ddisgyblion weithio arnynt mewn tasgau yn y dyfodol. O ganlyniad, gall disgyblion wneud gwelliannau. Mewn ychydig iawn o bynciau, mae athrawon yn rhoi pwys cryf ar ystyriaeth disgyblion i'r adborth. Caiff disgyblion eu hannog i ymateb i sylwadau, a rhoddir amser iddynt wneud gwelliannau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar ansawdd y gwaith a gynhyrchir gan ddisgyblion o bob gallu. Fodd bynnag, mae ymateb

disgyblion i adborth yn anghyson ac nid yw athrawon yn mynd i'r afael â hyn yn ddigon da.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae Ysgol Rhiwabon yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy'n gwerthfawrogi lles a chymeriad ei disgyblion lawn cystal â'u dysgu. Mae staff yn gweithio gyda'i gilydd yn gynhyrchiol i gefnogi anghenion unigol disgyblion. Mae'r ysgol yn sicrhau ei bod yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol. Mae'r rhain yn cynnwys agweddau ar y cwricwlwm, gwasanaethau, ychydig o weithgareddau cyfoethogi a'r cyfnod cofrestru estynedig yn y prynhawn.

Mae trefniadau pontio i gefnogi lles disgyblion yn gryfder yn yr ysgol. Mae staff yn helpu disgyblion i ymgynefino'n dda trwy fod yn groesawgar a dod i'w hadnabod yn gyflym. Er enghraifft, mae disgyblion yn cwblhau prosiect trawsgwricwlaidd am bythefnos ar ddechrau Blwyddyn 7, ac yn ystod y cyfnod hwn, cânt eu haddysgu yn eu grwpiau dosbarth. Am lawer o Flwyddyn 7, mae ganddynt ardal chwarae ar wahân yn ystod amseroedd egwyl a chinio. Mae'r dulliau hyn yn helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i deimlo'n ddiogel ac integreiddio'n llwyddiannus yn eu hysgol newydd.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o strategaethau gwerthfawr i hyrwyddo presenoldeb da a chynorthwyo disgyblion y mae eu presenoldeb yn peri pryder. Mae'r ysgol wedi blaenoriaethu camau i wella presenoldeb i ymateb i effaith y pandemig, ac mae staff yn gweithio'n agos â'r awdurdod lleol i fonitro a chynorthwyo disgyblion unigol. Mae'r ysgol wrthi'n mireinio'i dulliau i reoli ymddygiad disgyblion i adlewyrchu ei gwerthoedd a'i hethos yn well. Mae hyn wedi arwain at ansicrwydd ac anghysondeb ymhlith disgyblion a staff.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael cymorth pwrpasol gan y cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol ac aelodau staff eraill. Yn gyffredinol, mae athrawon yn defnyddio proffiliau un dudalen a chynlluniau datblygu unigol disgyblion yn briodol i addasu eu gwersi i ddiwallu anghenion disgyblion. Mae gan yr ysgol ganolfan adnoddau arbenigol fach o'r enw 'Succeed' ar gyfer disgyblion ag anawsterau dysgu cymedrol. Mae'r disgyblion hyn yn elwa ar gyfleoedd rheolaidd i gymryd rhan mewn gwersi prif ffrwd a chymorth staff yn y ganolfan adnoddau. Er enghraifft, maent yn dysgu medrau pwysig fel sut i goginio a defnyddio cludiant cyhoeddus, ochr yn ochr ag ennill cymwysterau gwerthfawr. O ganlyniad, mae disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu, ac mae ychydig ohonynt yn gwneud cynnydd nodedig.

Mae rhaglen ABCh yr ysgol yn dechrau darparu cyngor ac arweiniad buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r ysgol wedi adolygu a diwygio'r rhaglen yn sgil gwybodaeth o arolygon disgyblion. O ganlyniad, mae'r rhaglen yn ymateb yn briodol i bryderon lleol a chenedlaethol sy'n dod i'r amlwg. Mae'n canolbwyntio'n dda ar faterion pwysig fel peryglon fêpio ac effaith niweidiol casineb at fenywod. Trwy ailgyflwyno gwers ABCh bob pythefnos, mae arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddysgu am sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ac yn iach, a myfyrio ar hyn. Mae'r ddarpariaeth hon, yn ogystal â chyfleoedd i helpu pobl eraill o fewn y gymuned, fel codi arian ar gyfer hosbis plant, yn cefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn dda.

At ei gilydd, mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer diwallu anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion yn gryfder. Er enghraifft, mae'r sesiynau 'Anogaeth' yn galluogi disgyblion i wrando ar ei gilydd, a chynorthwyo'i gilydd. Mae uwch arweinwyr yn datblygu 'hyb lles' i gynorthwyo disgyblion. Mae hyn yn dod â gwasanaethau o'r tu mewn a'r tu allan i'r ysgol at ei gilydd i gydweithio ar ran y disgyblion, er enghraifft y gwasanaeth ieuenctid a gwasanaeth cwnsela'r ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu ychydig o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau arwain, er enghraifft yn y cyngor ysgol neu fel arweinwyr chwaraeon. Fodd bynnag, mae yna ychydig o grwpiau y gall disgyblion leisio'u barn ynddynt. Mae tua hanner y disgyblion yn teimlo nad yw arweinwyr bob amser yn gofyn am eu barn am faterion sy'n effeithio arnyn nhw neu'n gwrando ar eu safbwyntiau yn ddigon da.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu cryf. Mae pob un o'r staff yn glir am y trefniadau ar gyfer adrodd am bryderon ynghylch amddiffyn plant a lles i'r staff priodol. Mae'r ysgol yn gwneud yr atgyfeiriadau angenrheidiol i asiantaethau statudol allanol ac yn darparu cymorth ar gyfer disgyblion, lle mae angen. Daethpwyd ag ychydig o faterion iechyd a diogelwch ynglŷn â safle'r ysgol i sylw'r ysgol. Bydd Estyn yn cyflwyno llythyr lles i'r ysgol a'r awdurdod lleol yn gofyn i'r ysgol yn ymateb yn briodol i'r materion hyn o fewn amserlen ofynnol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth sicr, gan reoli newid yn sensitif tra'n cynyddu disgwyliadau ar gyfer staff a disgyblion. Mae hi'n uchelgeisiol i bob un o'r disgyblion gyflawni eu llawn botensial a bod yr ysgol yn eu paratoi'n dda ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu bywydau. Cefnogir hyn gan ei gweledigaeth, sef bod disgyblion yn 'llwyddo ag enaid.'

Caiff y pennaeth ei chynorthwyo'n dda gan yr uwch dîm arweinyddiaeth sy'n glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau unigol ac ar y cyd. Mae uwch arweinwyr yn gweithio'n agos i ddatblygu agweddau pwysig ar waith yr ysgol fel addysgu a darparu dysgu proffesiynol perthnasol ar gyfer staff. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r cryfderau a'r gwendidau o fewn eu meysydd cyfrifoldeb. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn rhoi sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol fel lleihau effaith tlodi trwy ddarparu cwricwlwm ystyriol a difyr a chyfleoedd i ddisgyblion ymgysylltu â busnesau lleol trwy broses ffug gyfweliadau. Mae arweinwyr yn paratoi'n briodol i weithredu'r Cwricwlwm i Gymru trwy gynllunio a threialu gwaith gyda disgyblion Blwyddyn 7. Fodd bynnag, nid yw gwaith tuag at flaenoriaethau cenedlaethol eraill fel datblygu medrau disgyblion a'u Cymraeg, wedi'i ddatblygu'n ddigonol ar hyn o bryd.

Mae llawer o arweinwyr canol yn deall eu rolau a'r disgwyliadau a osodir arnynt gan uwch arweinwyr. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o safonau disgyblion ac ansawdd yr addysgu o fewn eu hadrannau. Mae trefniadau rheoli llinell yn gadarn, ar y cyfan, ac yn darparu lefel addas o gymorth a her. Mae uwch arweinwyr yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag arweinwyr canol lle maent yn dilyn agenda benodol, yn canolbwyntio'n bennaf ar agweddau strategol, yn ogystal â materion gweithredol. O ganlyniad, caiff arweinwyr canol eu dwyn i gyfrif yn briodol am gynnydd yn erbyn eu blaenoriaethau gwella adrannol a safonau o fewn eu hadrannau.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn briodol, ac mae amcanion yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau ysgol gyfan ac adrannol. Mae cyfleoedd dysgu proffesiynol wedi'u

cysylltu'n briodol â blaenoriaethau. Mae'r pennaeth yn delio'n briodol ag achosion o danberfformio, pan fydd angen.

Mae arweinwyr ar bob lefel yn deall pwysigrwydd sicrhau ansawdd eu gwaith. Maent yn cymryd rhan mewn rhaglen strwythuredig o weithgareddau sy'n ffurfio'r sylfaen ar gyfer yr ymagwedd ysgol gyfan at welliant parhaus. Maent yn casglu tystiolaeth uniongyrchol o ystod o weithgareddau gwerthfawr, gan gynnwys teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, craffu ar lyfrau a gwrando ar weithgareddau dysgwyr. Mae uwch arweinwyr yn sicrhau bod staff, disgyblion, a phartneriaid allanol yn cael eu cynnwys ac yn gweithio gyda'i gilydd i gytuno ar ganfyddiadau o'r gweithgareddau hyn. Ym mwyafrif yr achosion, mae arweinwyr yn nodi cryfderau a meysydd i'w gwella yn gywir ac yn canolbwyntio'n briodol ar effaith y ddarpariaeth ar gynnydd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw ychydig o arweinwyr canol bob amser yn gwerthuso effaith yr addysgu ar gynnydd disgyblion yn ddigon da. Felly, nid ydynt yn nodi meysydd i'w gwella yn ddigon manwl gywir.

Mae arweinwyr yn cynllunio ar lefel ysgol gyfan, adrannol a bugeiliol i fynd i'r afael â blaenoriaethau gwella perthnasol. Maent yn gosod graddfeydd amser synhwyrol ac yn dyrannu cyfrifoldebau ar gyfer monitro a gwerthuso cynnydd yn briodol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn canolbwyntio'n graff ar y camau gweithredu allweddol sy'n ofynnol i yrru gwelliant cyflym, ac nid yw arweinwyr bob amser yn gwerthuso'r effaith ar ddysgu disgyblion.

Mae uwch arweinwyr yn cynllunio cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar anghenion staff a blaenoriaethau ysgol gyfan yn strategol. Mae'r cyfleoedd hyn yn amrywiol ac yn cael eu gwerthfawrogi gan staff, ar y cyfan. Maent yn cynnwys sesiynau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) teilwredig, cyfleoedd i gydweithio â staff eraill, cylchlythyrau addysgu a dysgu a rhannu arfer dda. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda â phartneriaid allanol amrywiol i gyfoethogi eu cynnig dysgu proffesiynol. Mae'n cydweithio'n fuddiol ag ysgolion eraill a phartneriaid ar agweddau ar addysgu a dysgu. Mae dysgu proffesiynol yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar ychydig o feysydd pwysig o waith yr ysgol, gan gynnwys gwelliannau yn ansawdd yr addysgu. Er bod prosesau sicrhau ansawdd yn canolbwyntio ar yr effaith y mae dysgu proffesiynol yn ei chael ar arfer ystafell ddosbarth, nid yw ychydig o arweinwyr yn gwerthuso'i effaith ar ddysgu yn ddigon agos.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n effeithiol â rhieni trwy ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr ar wefan yr ysgol. Mae hefyd yn gwneud defnydd da o ap ysgol a gwasanaeth negeseua ar gyfer rhieni. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn gofyn am farn rhieni ar agweddau ar ei gwaith yn rheolaidd.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol a'i huwch arweinwyr. Mae strwythur clir i bwyllgorau ac mae aelodau yn gwybod am bwysigrwydd eu rolau. Pan fo'n briodol, maent yn darparu cymorth a her addas. Maent yn deall eu rôl statudol mewn diogelu disgyblion ac yn datblygu eu dealltwriaeth o'r angen i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r llywodraethwyr, y rheolwr busnes a'r pennaeth yn rheoli cyllid yr ysgol yn ofalus. Maent yn gwneud defnydd pwrpasol o grantiau, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i gefnogi lles a chynnydd disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco, lle bo'n briodol
- yn ymweld â sampl eang o wersi, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (http://www.estyn.llyw.cymru/)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru/

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  04/05/2023